



Gemau Ieuentid y Gymanwlad VI:

Y Bahamas

19-23 Gorffennaf 2017

Polisi Enwebu a Safonau Cymhwyso Athletau Cymru

Cyhoeddwyd Ionawr 2017

Golwg Gyffredinol

Cytunwyd ar y polisi enwebu hwn gan Fwrdd Cyfarwyddwyr Athletau Cymru, a Chyngor Cymru ar gyfer Gemau'r Gymanwlad ("y Cyngor"). Nod y polisi yw egluro'r broses y bydd Athletau Cymru'n ei defnyddio i enwebu athletwyr i fod yn rhan o Dîm Cymru yng Ngemau Ieuencid y Gymanwlad yn 2017 yn y Bahamas. Bydd yr enwebiadau'n cael eu cyflwyno i'r Cyngor, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynglŷn ag aelodau Tîm Cymru. Bydd bodloni'r meini prawf enwebu felly yn golygu cymhwysedd ar gyfer enwebiad yn unig, ac nid yw'n sicrwydd o enwebiad nac o ddetholiad. Ceir enwebu mwyafswm o bum athletwr o Gymru i gael eu dewis gan y Cyngor.

Nod y Polisi Enwebu

Bydd y panel enwebu ("y Panel") yn ymgeisio i enwebu tîm o athletwyr Cymru i'r Cyngor a fydd yn cystadlu gyda rhagoriaeth ar lefel Pencampwriaeth ryngwladol. Bydd cymryd rhan yn y Gemau yn cael ei ystyried yn ddigwyddiad datblygiad allweddol ar y llwybr sy'n ffurfio rhan o Strategaeth Hyfforddi a Pherfformiad Athletau Cymru. Nod y strategaeth hon yw cynorthwyo athletwyr Cymru i allu cynrychioli Prydain Fawr, yn ogystal â pharatoi athletwyr Cymru i berfformio hyd eithaf eu gallu mewn digwyddiadau Uwch Bencampwriaeth bwysig megis Gemau'r Gymanwlad.

Cymhwysedd Athletwyr

Er mwyn cael eu hystyried i gael eu dethol, rhaid i bob athletwr fod yn gymwys i gystadlu i Gymru yn ôl Cyfansoddiad y Cyngor;

- Rhaid fod gan bob athletwr basport Prydeinig.
- Rhaid i un o'r canlynol fod yn wir ar gyfer bob athletwr:-
 - a. Wedi ei eni/geni yng Nghymru;
 - b. Bod â rhiant Cymraeg;
 - c. Bod wedi gwneud cais am ac ennill trwydded. Yn fwyaf cyffredin, bydd hyn yn golygu bod yr athletwr wedi byw yng Nghymru am bum mlynedd yn olynol cyn y Gemau. Rhowch wybod i Athletau Cymru os oes angen trwydded ar unrhyw athletwr.

Bydd athletwyr Gemau Ieuencid y Gymanwlad 2017 yn cystadlu yng nghategori D10 IAAF, ac mae'n rhaid iddynt felly fod wedi eu geni yn 2000 neu 2001 (bod yn 16 neu 17 oed yn 2017).

Ni fydd mwy na dau athletwr yn cael ei enwebu ar gyfer yr un digwyddiad.

Fformat y Gystadleuaeth

Bydd cystadlaethau'r digwyddiadau canlynol yn cael eu cynnal yng Ngemau Ieuencid y Gymanwlad 2017:

- Dynion: 100m, 200m, 400m, 800m 1500m, 3000m, Clwydi 110m, Clwydi 400m, Naid Uchel, Naid Hir, Taflu Maen, Disgen, Gwaywffon
- Menywod: 100m, 200m, 400m, 800m 1500m, 3000m, Clwydi 100m, Clwydi 400m, Naid Uchel, Naid Hir, Taflu Maen, Disgen, Gwaywffon
- Rasys Cyfnewid Cymysg: 4x100m, 4x200m, 4x400m. (Dim ond o'r garfan o athletwyr a ddewiswyd yn unigol y bydd athletwyr rasys cyfnewid yn cael eu dewis, ac nid oes rhwymedigaeth ar Gymru i ddewis tîm ras gyfnewid i gystadlu)

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae'r wybodaeth benodol ganlynol yn berthnasol;

Uchderau a'r bwlch rhwng y clwydi;

	Digwyddiad	Uchder	Atrediad	Bwlch	Gorffen
Menywod D18	Clwydi 100m	76.2cm	13.00m	8.50m	10.50m
Dynion D18	Clwydi 110m	91.4cm	13.72m	9.14m	14.02m
Menywod D18	Clwydi 400m	76.2cm	45.00m	35.00m	40.00m
Dynion D18	Clwydi 400m	83.8cm	45.00m	35.00m	40.00m

Pwysau'r Offerynnau;

	Maen Taflu	Disgen	Gwaywffon
Menywod D18	3 kg	1 kg	500g
Dynion D18	5 kg	1.5 kg	700g

Meini Prawf Cenedlaethol

Bydd y panel yn ceisio enwebu athletwyr i'r Cyngor sy'n bodloni'r polisi o allu perfformio gyda rhagoriaeth ar y llwyfan rhyngwladol, ac o'r herwydd dim ond athletwyr sydd wedi cyrraedd y safonau cymhwyso a restrir isod a gaiff eu hystyried.

Rhaid i'r safonau hyn gael eu cyrraedd o fewn y cyfnod cymhwyso fel â ganlyn;

o: 1^{af} Mai 2016

i: 14^{eg} Mai 2017

Nid yw cyrraedd safon cymhwyso yn golygu enwebiad awtomatig i'r Cyngor, a bydd angen i'r athletwyr hynny sy'n cyrraedd safon yn 2016 ddangos eu bod yn perfformio i safon dda ar yr adeg bresennol honno er mwyn cael eu hystyried i gael eu henwebu. Felly, gellid edrych ar safon a gyrhaeddir yn 2017 yn fwy ffafriol na safon a gyrhaeddir yn 2016.

Os bydd mwy na 5 athletwr yn cyrraedd y safonau cymhwys, bydd y panel enwebu'n gosod yr athletwyr yn nhrefn perfformiad, yn seiliedig ar y meini prawf a restrir yn yr adran ynglŷn â'r broses ddethol, ac yn enwebu'r 5 uchaf.

Safonau Cymhwys

Safon y dynion	Digwyddiad	Safon y menywod
10.85	100m	11.95
21.80	200m	24.50
48.50	400m	55.50
01:52.5	800m	02:09.0
03:54.0	1500m	04:25.0
08:35.0	3000m	09:40.0
14.20	C 110m/ C 100m*	14.10
54.50	C 400m*	62.00
2.05	NU	1.76
7.05	NH	6.00
17.00	TM*	15.00
54.00	TD*	44.00
65.00	TJ*	48.00
N/A	Ras gyfnewid gymysg	Dim yn berthnasol

* Yn unol â'r wybodaeth benodol i'r digwyddiad a restrir uchod

Amodau

Rhaid i gyflawniad y safonau enwebu gydymffurfio â'r gofynion canlynol:

1. Rhaid eu cyflawni mewn cystadlaethau sydd wedi eu trefnu neu eu hawdurdodi gan yr IAAF, ei Gymdeithasau Ardal neu Ffederasiynau ei Aelodau Cenedlaethol
2. Ni fydd perfformiadau a gynorthwyr gan y gwynt (neu berfformiadau lle nad oedd mesuriad y gwynt ar gael) yn cael eu derbyn
3. Ni fydd perfformiadau a amserwyd â llaw yn y rasys 100m, 200m, 400m, clwydi sbrint a Chlwydi 400m yn cael eu derbyn
4. Bydd perfformiad dan do yn cael ei dderbyn ar gyfer bob digwyddiad

Y Broses Ddethol

Bydd y cyfarfod enwebu'n caelei gynnal ar 15 Mai 2017. Bydd y panel yn cynnwys 3 aelod sy'n pleidleisio;

- Pennaeth Hyfforddi a Pherfformiad Athletau Cymru
- Rheolwr Tîm enwebedig Athletau Cymru ar gyfer Gemau Ieuencid y Gymanwlad 2017
- Cynrychiolydd Bwrdd Cyfarwyddwyr Athletau Cymru ar gyfer Hyfforddi a Pherfformiad

Bydd arsylwr (nad yw'n pleidleisio) hefyd yn bresennol o Gemau'r Gymanwlad Cymru.

Bydd y Panel yn ystyried y canlynol (yn nhrefn blaenoriaeth) wrth benderfynu ar enwebiadau:

1. Safon bresennol (perfformiad gorau tymor 2017)
2. Perfformiadau dan do tymor 2017 (lle bo'n berthnasol)
3. Perfformiadau gorau tymor 2016 a chryfder y perfformiadau
4. Recordiau cystadleuol benben (pan yn berthnasol)
5. Statws anafiadau
6. Unrhyw ffactorau eraill sydd, ym marn y panel, yn rhoi'r cyfle gorau i Gymru ennill medal yng Ngemau Ieuencid y Gymanwlad

Mae Athletau Cymru'n ymroddedig i gynnig cyfleoedd cyfartal i bob athletwr yng Nghymru. Mae unrhyw athletwr o Gymru yn gymwys i gael ei ddewis a'i ystyried fel rhan o'r broses ddethol, os bydd wedi cyflawni'r hyn sydd wedi ei nodi yn y polisi dethol hwn. Ni fydd Athletau Cymru'n gwahaniaethu wrth ddethol unrhyw athletwr ar sail unrhyw nodwedd warchoddedig.

Y Broses Apelio

Bydd bob athletwr sy'n cael ei enwebu gan Athletau Cymru i Gemau'r Gymanwlad Cymru yn cael gwybod dros y ffôn ar 15 Mai 2017. Bydd unrhyw athletwr sydd wedi cyrraedd y safon gymhwyso o fewn y cyfnod cymhwyso ond ddim yn derbyn enwebiad gan Athletau Cymru hefyd yn cael gwybod dros y ffôn ar 15 Mai 2017 – bydd hyn yn cynnwys sail resymegol dros y penderfyniad i beidio â'i enwebu/henwebu. Ni fydd athletwyr eraill – h.y. y rhai nad ydynt wedi cyrraedd y safon gymhwyso o fewn y cyfnod cymhwyso yn cael gwybod nad ydynt wedi eu henwebu ac felly os nad yw athletwr yn derbyn galwad ffôn ar 15 Mai 2017 dylid cymryd yn ganiataol nad yw wedi ei enwebu/henwebu. Mae gan unrhyw athletwr yr hawl i apelio yn erbyn eu diffyg enwebiad. Rhaid gwneud hynny'n ysgrifenedig i Brif Swyddog Gweithredol Athletau Cymru, Matt Newman ar matt.newman@welshathletics.org erbyn 12.00 ar 17 Mai 2017. Bydd panel apeliadau annibynnol wedyn

yn ystyried bob apêl ar 17 Mai 2017 ac yn gwneud y penderfyniad terfynol ynglŷn ag enwebiadau i Gemau'r Gymanwlad Cymru. Bydd bob apeliwr yn cael gwybod am ganlyniad ei apêl, dros y ffôn, ar 17 Mai. Bydd hyn yn dod â'r broses apelio i ben.

Cyhoeddiadau Tîm

Bydd pob athletwr a ddewisir i Dîm Cymru'n cael ei hysbysu ar 18 Mai 2017.

Bydd y tîm terfynol o athletwyr a fydd yn cynrychioli Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad Cymru yn cael ei gyhoeddi ar 19 Mai 2017.

Y Broses Ddad-ddethol

Gallai athletwr gael ei ddad-ddethol ar sail:

1. Methiant i fodlonii'r protocolau profi ffitrwydd safonol
2. Methiant i gydymffurfio â chod ymddygiad athletwyr Athletau Cymru
3. Methiant i gydymffurfio â llyfr rheolau IAAF

Os bydd athletwr yn cael anaf ar ôl derbyn ei safle ar y tîm, mae'n ofynnol iddo/iddi roi gwybod i'r Pennaeth Hyfforddi a Pherfformiad (Scott Simpson – scott.simpson@welshathletics.org) ar unwaith.

Cadarnhau Staff Tîm

Cytunir ar Reolwr Tîm ar gyfer tîm athletau Cymru gan Athletau Cymru a Gemau'r Gymanwlad Cymru, a bydd yn cael ei benodi/phenodi ym mis Ionawr 2017. Bydd unrhyw staff ychwanegol ar gyfer y tîm athletau yn cael eu cytuno yn y cyfarfod enwebu ar 15 Mai 2017.

Diwygiad

Ceidw Athletau Cymru'r hawl i ddiwygio'r Polisi Dethol hwn yn ôl ei ddisgresiwn llwyr a bydd yn sicrhau bod unrhyw fersiwn wedi'i diwygio ar gael yn gyhoeddus (gan gynnwys y dyddiad y gwnaethpwyd y diwygiad) yn www.welshathletics.org.